

# DOLEN Y TAB 89

14–15 Ionawr 2022

## Bore Sul 16 Ionawr am 11

Oedfa yng ngofal Lowri a Dafydd Roberts a Helen Prosser. Sian Elin fydd wrth yr organ. Hefyd bydd modd gwyllo'r oedfa'n fyw ar dudalen *Facebook* y capel, ynghyd â recordiad ar *YouTube* yn ddiweddarach.

Cofiwch gofrestru sedd erbyn 6 nos Wener.

## YR OEDFAON NESAF

### Ionawr

23 Oedfa yng nghwmni Heulyn Rees a'r Parchedig Gethin Rhys

30 Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys ac eraill

### Chwefror

6 Y Parchedig Dyfrig Rees

## Hefyd ddydd Sul 16 Ionawr

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth yng ngofal Ann Griffiths, Washington.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Chwaraeon a Ffydd Nia fydd yn cwrdd â'r Parchedig John Gillibrand, un sy'n benderfynol o redeg ras gorfforol ac ysbrydol.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

# Iechyd Da!

Tipyn o sioc oedd deffro ychydig yn hwyrach nag arfer fore Dydd Calan i sylweddoli bod y Twmiaid eisoes wedi ennill y blaen arnom trwy godi'n blygeiniol i lansio eu hymgyrch iachusol. Tra bod y rhan fwyaf ohonom yn fwy na bodlon i swatio yn ein cartrefi i osgoi'r gwynt a'r glaw di-baid dros ddyddiau cyntaf y flwyddyn newydd, roedd y Twmiaid eisoes wedi cynllunio sut i gyrraedd y nod o gerdded, rhedeg, nofio a seiclo 700 cilomedr rhyngddynt, sef pellter sy'n cyfateb i deithio ar hyd llwybr arfordir Cymru o Aberteifi i Gas-gwent.

Dros y pythefnos diwethaf mae nifer o aelodau a chyfeillion y Tabernacl wedi bod yn dilyn hynt y bobl ifanc gyda diddordeb mawr ar dudalen *Facebook* yr eglwys ac yn rhyfeddu at eu camp. Y newyddion diweddaraf yw eu bod wedi 'gadael' Abergwaun tu cefn iddynt ac yn 'anelu' am Aberdaugleddau. Ar y dudalen *Facebook* hefyd mae graffeg sy'n dangos sut mae'r cyfraniadau i'r elusen yn tyfu o ddydd i ddydd. Erbyn hyn maent wedi llwyddo i godi dros £300 tuag at yr elusen a ddewiswyd ganddynt i'w noddi, sef *2Wish*. Sefydlwyd yr elusen hon er mwyn cynnig cefnogaeth i rieni yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn ifanc. Bydd llawer iawn ohonoch yn ymwybodol mai Rhian Burke, Meisgyn, a sefydlodd yr elusen er cof am ei mab, George, a gollwyd ym mis Chwefror 2012 o salwch annisgwyl pan oedd yn flwydd oed, a'i gŵr, Paul, fu farw bum niwrnod yn ddiweddarach. Os am noddi'r elusen bwysig hon, a dangos eich gwerthfawrogiad o ymdrechion glew y Twmiaid, gallwch wneud hynny ar y dudalen *Just Giving*:

<https://www.justgiving.com/fundraising/twmiaid>.

## Briwsionyn Bach o'r Bwrdd

Ymhlith yr eitemau ar agenda Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod nos Fawrth roedd asesu'r arbrawf o gynnal oedfa hybrid am y tro cyntaf y Sul diwethaf. Wrth ei ffrydio'n fyw ar *Facebook*, roedd modd i'r neges gyrraedd llawer iawn mwy o wrandawyr na'r 27 oedd yn bresennol yn y capel ei hun.

Adroddwyd fod dros gant wedi gwyllo'r oedfa, a hefyd bod nifer dda o sylwadau cadarnhaol wedi eu postio ar *Facebook*. Diolchwyd i Eleri Jones a Geraint Rees am arloesi'r cyfrwng ac i Aled Illtud am ofalu am yr elfennau technegol. Roedd yr ymateb i'r arbrawf yr un mor gadarnhaol ymhlith aelodau'r Bwrdd, a chytunwyd i barhau i ffrydio'r oedfaon ar *Facebook* a'u recordio'n ddiweddarach pe gellid ar sianel *YouTube*. Felly, tra bod yr angen yn parhau i weithredu'n unol â gofynion Lefel Rhybudd 2, bydd modd i'r aelodau sy'n ansicr am ddychwelyd i'r capel ymuno'n rhithiol bob bore Sul.

**D.S. Yn gynharach y bore 'ma (dydd Gwener) cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai ar 28<sup>ain</sup> o Ionawr y bwriedir dychwelyd i Lefel Rhybudd 0.**





## **PIGION O'R WASG** **Cyfrifiad 1921**

Ganol yr wythnos ddiwethaf fe ryddhawyd manylion personol 38 miliwn o drigolion Cymru a Lloegr oedd wedi eu cofnodi fesul cartref yng nghyfrifiad 1921. O ganlyniad, bu haneswyr cymdeithasol a cholofnwyr papurau newydd wrthi'n brysur yn datgelu tameidiau blasus o wybodaeth am rai o enwogion y cyfnod, neu am rai oedd eto i gyrraedd amlygrwydd, ac ar lefel fwy personol nodi ffeithiau am amgylchiadau rhai o'u hynafiaid. Er enghraifft, yn rhifyn dydd Sadwrn diwethaf o'r *Western Mail* mae Carolyn Hitt, yn ei cholofn wythnosol, yn llwyddo i greu darlun difyr o rai enwogion, a disgrifio amodau cartref aelodau o'i theulu ar sail cofnodion a welwyd gan y cyhoedd am y tro cyntaf eleni gan nad oes hawl statudol eu rhyddhau am gan mlynedd.

Does dim dwywaith bod diddordeb mawr yn y cofnodion hyn, yn dilyn y twf syfrdanol mewn olrhain achau a hanes teuluol dros y degawdau diwethaf. Mae'r diddordeb hwn wedi caniatáu i'r Archif Genedlaethol yn Llundain sefydlu partneriaeth fasnachol gyda chwmni *Findmypast* er mwyn digideiddio'r holl ddata fel bod modd cynnal chwiliadau ar-lein am wybodaeth bersonol.

Er mor bwysig yw'r adnodd hwn i haneswyr proffesiynol ac amatur fel ei gilydd, nid dyma'r prif reswm dros gynnal cyfrifiadau. Yn hytrach, fe'u trefnir fel ffordd effeithiol o gasglu data crai i gynorthwyo'r llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol i flaenoriaethu gwasanaethau ac i ganfod tueddiadau fydd yn dylanwadu ar bolisïau mewn meysydd megis tai, yr economi, gwaith ac ysgolion.

Cyhoeddwyd cyfrolau swmpus o ystadegau o fewn dwy i dair blynedd i gyfrifiad 1921, ac mae'r ystadegau hynny'n cynnig darlun o amodau'r trigolion megis cyfartaledd y niferoedd oedd yn byw mewn cartref, eu hoedran a'u cyflogaeth fesul ardal. Er enghraifft, wrth ddadansoddi'r ystadegau hyn, gwelwyd fod y cyflenwad o dai yn yr hen sir Forgannwg yn argyfyngus o isel, gyda degau o filoedd o unedau teuluol wedi eu gorfodi i fyw dan yr un to ag un neu ddau o unedau teuluol eraill. Y prif eglurhad am hyn yw mai Morgannwg welodd y twf uchaf yn ei phoblogaeth o holl siroedd Cymru a Lloegr yn y ddegawd honno – o 1,120,000 yn 1911 i 1,252,000 yn 1921 (11.7%). Nid cyddigwyddiad chwaith mo'r ffaith mai ym mlwyddyn y cyfrifiad y cyrhaeddodd meysydd glo de Cymru eu hanterth pan gyflogwyd 250,000 i gwrdd â'r galw am lo yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd cyntaf.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, pan gasglwyd data cyfrifiad 1931 yng nghanol blynedd y dirwasgiad, roedd amgylchiadau trigolion sir Forgannwg yn dra gwahanol – fel a ddangosir gan yr ystadegau cyffredinol a ddadansoddwyd a'u cyhoeddi cyn i'r archif honno gael ei dinistrio'n llwyr mewn tân. Yn anffodus, caiff haneswyr teuluol y dyfodol eu hamddifadu o'r cyfle i olrhain hynt a helynt hynafiaid o'r data gwerthfawr, gan na fydd manylion personol i'w rhyddhau yn 2032 nac ychwaith yn 2042.



**Y Ganolfan,  
Capel Tabernacl** **10.00-11.30**

**Dydd Llun 17eg, 31ain o Ionawr a  
Chwefror 14eg**

**Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i  
plant/wyrion/wyresau**

**Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd  
a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.**

## **Cylch Cadwgan**

**7.30 Nos Wener  
11 Chwefror 2022**

**Myrdd o ryfeddodau – rhai hoff gerddi**  
Glenys M. Roberts

Trefnir gan  
Gapel y Tabernacl, Efailisaf

Cyfarfod Zoom

**7.30 Nos Iau  
10 Mawrth 2022**

**Delweddau o Cynan**  
Yr Athro Gerwyn Williams

Trefnir gan  
Gymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cyfarfod Zoom



**Coffi a Sgws**  
**Canolfan y Tabernacl**  
**Bob bore Mawrth  
10.30-12.00**  
**Croeso i bawb**

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)